RHONDDA CYNON TAF

Perchennog / Preswylydd
Heol Pont Siôn Norton
Cilfynydd
Pontypridd

**Gofynnwch Am / Please Ask For:** Toby Olden **Ffôn/Telephone:** Dd/B

**Fy Nghyf / My Ref:** IF259 / TO **Eich Cyf / Your Ref:** **Dyddiad / Date:** 12 Awst 2025

Annwyl Berchennog / Breswylydd

**Heol Pont Siôn Norton – Cilfynydd, Pontypridd.**
**Newidiadau i Gyfyngiadau Aros.**

Mae'r Cyngor yn cynnig cael gwared ar y marciau dim stopio ar y marciau 'ysgol - cadwch yn glir' a'r marciau bae bysiau ysgol ar Heol Pont Siôn Norton a'r arwyddion cysylltiedig sydd ddim yn ofynnol mwyach. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig ychwanegu llinellau melyn dwbl wrth gyffordd Heol Pont Siôn Norton â'r ffordd sydd arwain at hen ysgol gynradd, fel bod gweledEdd y gyffordd yn cael ei gynnal yn y lleoliad yma.

Cynigir hefyd symud yr arosfan bysiau o du allan i Rhif 15 Heol Pont Siôn Norton, ac adleoli'r faner ychydig bellter yn agosach at Rhif 20 Heol Pont Siôn Norton, lle bydd yn haws i fysiau ollwng a chodi teithwyr.

Mae'r manylion ynglŷn â'r cynigion i'w gweld yn llun TM25/214/GA, sydd wedi'i atodi. Yn ogystal â hynny, mae modd ei weld ar: **www.rctcbc.gov.uk/traffig**.

Rydw i wedi amgáu ffurflen ymateb ynghyd ag amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, mae croeso i chi e-bostio gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk. Hoffwn i gael eich sylwadau erbyn 2 Medi 2025.

Os na fyddwch chi wedi cyflwyno ymateb erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

**Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**
**Highways, Streetcare and Transportation**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Ffôn/Tel: 01443 425001

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Fydd y Cyngor ddim yn ymateb yn ffurfiol i'ch sylwadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd eich sylwadau yn llywio'r dyluniad cyn cam nesaf y prosiect, sef Hysbysiad Cyhoeddus.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond pe hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod. Fel arall, pe hoffech chi drafod y materion yma dros y ffôn, e-bostiwch **gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk** i drefnu galwad.

Yn gywir,

Toby Olden
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management